



CYSWLLT Y PRIF WEITHREDWR

Annwyl gydweithiwr,

04/07/2022

Diolch, fel bob amser, i gydweithwyr ar draws y Bwrdd lechyd. Mae gan bob un person rydw i wedi'i gyfarfod ac wedi dod i'w adnabod yn ddiweddar gymaint o angerdd a phenderfyniad, ac rydw i bob amser yn cael fy syfrdanu gan eich natur gadarnhaol a'ch proffesiynoldeb wrth ofalu am ein cleifion. Diolch i chi i gyd – rydych chi'n gwneud gwaith anhygoel o ystyried yr heriau rydych chi wedi delio â nhw, ac yn parhau i ddelio â nhw, bob dydd.

Yn anffodus, rydym yn gweld cynnydd mewn achosion COVID-19 yn y gymuned sydd bellach yn arwain at gynnydd yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty. Er mwyn rheoli hyn rydym yn ailgyflwyno'r rheol i wisgo gorchuddion wyneb ar draws safleoedd i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint. Os oes angen i chi ddod i unrhyw safle, gwisgwch orchudd wyneb, oni bai eich bod wedi'ch eithrio'n feddygol. Efallai y bydd gwisgo gorchudd wyneb yn teimlo fel mân anghyfleustra, ond maen nhw'n gwneud gwahaniaeth mawr o ran amddiffyn y bobl agored i niwed mewn ysbytai a helpu i leihau effaith COVID-19 ar wasanaethau.

Rydym hefyd wedi gwneud rhai newidiadau i ganllawiau ymweld â chleifion yn yr ysbyty. Caniateir i bobl ymweld o hyd ond rhaid trefnu'r ymweliad yn uniongyrchol gyda'r ward a gall cleifion gael un ymweliad y dydd am hyd at awr gyda dau ymwelydd. Lle bo

modd gofynnwn i'r un ymwelwyr fynychu pob ymweliad. Os oes gennych ymweliad wedi'i drefnu a'ch bod yn teimlo'n anhwylys o gwbl, peidiwch â mynychu gan fod risg y gallai heintiau gael eu trosglwyddo i gleifion agored i niwed. Byddwn yn monitro'r sefyllfa ac yn adolygu canllawiau'n rheolaidd ac rydym yn gwerthfawrogi eich amynedd a'ch dealltwriaeth wrth i ni wneud y newidiadau hyn i gadw pawb yn ddiogel.

Ddydd Iau diwethaf cynhaliwyd ein cyfarfod Bwrdd Cyhoeddus i gymeradwyo ein Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae pob un o'n cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor yn agored i'w mynychu neu gallwch wyllo recordiadau ar-lein wedyn. [Ewch i'n gwefan am y rownd nesaf o ddyddiadau](#). Mae ein Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar 19 Gorffennaf am 12.30 a gellir ymuno ag ef trwy Teams, felly gwnewch yn siŵr ei fod yn eich dyddiadur.

Cefais y pleser o gwrdd ag arlunydd uchel ei barch o Gaerdydd, Harry Holland, yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau yn ddiweddar, i weld ei gampwaith diweddaraf o Aneurin Bevan, sylfaenydd y Gwasanaeth lechyd Gwladol. Teitl y gwaith celf, yn briodol iawn, yw 'I Bawb', a gellir ei weld ym mhrif fynedfa Ysbyty Athrofaol Llandochoau, ar y dde yn syth ar ôl camu drwy'r drysau. Rwy'n eich annog i fynd i gael golwg os ydych chi yno. [Darllenwch ragor yma](#).

Cyflwyno system e-fwrdd gwyn newydd i drawsnewid atgyfeiriadau cleifion o'r Uned Achosion Brys

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu rhedeg mor ddiogel ac effeithlon â phosibl. Er mwyn gwella ein gwasanaethau i staff a chleifion rydym wedi dechrau cyflwyno system e-fwrdd gwyn newydd yn raddol sy'n cefnogi atgyfeiriadau o'r Uned Achosion Brys i arbenigeddau eraill.



Bydd y system e-fwrdd gwyn, sydd wedi'i chynllunio ar y cyd gan y tîm Deallusrwydd Iechyd a Digidol a chlinigwyr o'r Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt (EAMD) a'n tîm Gofal Llawfeddygol Brys yr Un Diwrnod (sSDEC), yn helpu i leddfu'r pwysau wrth y drws ffrynt drwy drawsnewid y ffordd y caiff cleifion eu hatgyfeirio o'r Uned Achosion Brys. Mae'r system yn caniatáu i adrannau sy'n derbyn atgyfeiriadau gan yr Uned Achosion Brys reoli cleifion yn effeithlon, gyda'r system yn olrhain taith claf yn electronig. Mae'r system e-fwrdd gwyn hefyd yn cefnogi'r broses o drosglwyddo cleifion, gan roi trosolwg o'r statws gan gynnwys y clinigwyr sy'n ymwneud â'r driniaeth, yn nodi a yw'r claf yn aros am ddiagnosteg a ble mae'r claf wedi'i leoli ar hyn o bryd.

Mae'r system wedi bod yn fyw yn ein Bwrdd Clinigol Meddygaeth ers chwe mis, ac ar ôl cyflwyno'r system yn llwyddiannus bydd y system yn cael ei chyflwyno i adrannau pellach gan ddechrau gyda'r pum arbenigedd yn ein huned sSDEC ar 4 Gorffennaf.

Mae'r system ddigidol newydd hon yn enghraifft arall o sut mae'r Bwrdd Iechyd yn trawsnewid y ffordd rydym yn darparu gofal iechyd i wella mynediad i'n gwasanaethau a chefnogi ein timau i ddarparu'r gofal gorau posibl i gleifion yn brydlon ac effeithlon.



Yr wythnos diwethaf, mynychodd ein cydweithwyr gofal sylfaenol brys a gofal y tu allan i oriau o bob bwrdd iechyd yng Nghymru ail Gynhadledd Glinigol Gofal Sylfaenol Brys Cymru Gyfan.

Nod y gynhadledd yw annog pob clinigydd sy'n gweithio yn y maes gofal sylfaenol brys i ddod at ei gilydd i ddeall beth sy'n digwydd o fewn yr arbenigedd ledled Cymru, rhannu gwybodaeth a phrofiadau a gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo'r gwasanaeth hanfodol hwn i gleifion ym mhob un o ranbarthau'r Bwrdd Iechyd.

Cydag araith agoriadol a draddodwyd gan Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, drwy gyswllt fideo, cafodd y rhai a oedd yn bresennol eu cyfarch a rhoddwyd diolch diffuant iddynt am eu hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau gofal brys i gleifion.

Roedd hon yn neges a ailadroddwyd yn bersonol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Eluned Morgan. Ymunodd y Gweinidog â'r gynhadledd i gyflwyno araith i gydweithwyr i ddiolch am gefnogaeth barhaus yn ystod cyfnod hynod heriol, pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod cleifion yn cael y gofal iawn, o'r lle iawn, y tro cyntaf a thynnu sylw at gynlluniau ar gyfer datblygu dull system gyfan a fydd yn helpu i drawsnewid gofal i'n cleifion.



Dilynwyd yr areithiau hyn gan gyfres o gyflwyniadau allweddol a sesiynau gweithdy a gynlluniwyd i ddangos y daith a gymerwyd hyd yma gan dimau gofal sylfaenol brys a rhannu syniadau arfer gorau ar gyfer parhau i ddarparu gofal brys i gleifion.

Wedi'i ddisgrifio yn y gynhadledd fel arbenigedd sy'n fach, ond wedi'i ffurfio'n berffaith ac yn hanfodol i ddull gweithredu'r system gyfan, roedd y gynhadledd gofal sylfaenol brys yn gyfle i gydweithwyr clinigol a gweithredol fyfyrto ar y gwaith anhygoel a wnaed a pha gamau y gellir eu cymryd i barhau â'r broses ailadroddus hon.

Dewch i gwrdd â ni yn ein digwyddiad recriwtio nesaf ar 14 Gorffennaf

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cynnal digwyddiad recriwtio ar 14 Mai, o 10am-3pm, i arddangos yr amrywiaeth eang o rolau ar draws y Bwrdd Iechyd. Cynhelir y digwyddiad yng Ngwesty'r Hilton yng Nghaerdydd a bydd yn agored i unrhyw un sydd â diddordeb mewn dechrau gyrfa gyda'r Bwrdd Iechyd.



Bydd mynychwyr yn gallu ymweld â stondinau a siarad â ni am yr ystod eang o gyfleoedd sydd ar gael, yn cynnwys meysydd fel gweinyddu, cyfleusterau, labordai, fflebotomi, nyrsio a llawer mwy.

Byddwn wrth law i roi cyngor ar dechnegau cyfweliad a cheisiadau am swyddi, yn ogystal â rhannu profiadau o weithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Cymerwch olwg ar [adran swyddi ein gwefan](#).

Llongyfarchiadau i Stephen Tatnell sy'n dathlu 55 mlynedd fel porthor

Dechreuodd gyrfa Stephen gyda'r Bwrdd Iechyd yn 1967 ar ôl iddo ymgymryd â swydd yn yr ystafell bost yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd (CRI) cyn trosglwyddo i'r adran porthorion yn 1971. Yna symudodd Steve i Ysbyty Athrofaol Cymru ym 1999. Yn wyneb cyfarwydd o amgylch Ysbyty Athrofaol Cymru, mae Stephen yn adnabyddus gyda'n staff a'n cleifion ac yn ystod ei yrfa mae hefyd wedi gweithio fel DJ ar radio'r ysbyty rhwng y 1970au a'r 1990au yn ogystal â gweithio ar y dderbynfa yn y cyntedd.



Nid yw'n syndod bod Stephen hefyd wedi derbyn gwobrau i gydnabod ei waith gan gynnwys gwobr David Morgan yn 1987 a hefyd Medal yr Ymerodraeth Brydeinig yn 2015. Mae hwn yn gyflawniad gwych a gobeithio y byddwch yn ymuno â mi i longyfarch Stephen ar ei ymroddiad i'r Bwrdd Iechyd.



Arolygon Cyngorau Iechyd Cymuned ar agor

Mae'r corff gwarchod annibynnol, Cyngor Iechyd Cymuned De Morgannwg yn croesawu adborth gan aelodau o'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth ar amrywiaeth o bynciau. [Ewch i'r gwefan](#) i gymryd rhan a dweud eich dweud ar faterion gan gynnwys trafnidiaeth, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau iechyd meddwl a gofal i'r rhai sydd â COVID-19 hir.

Noson Golff yr Elusen Iechyd yng Nghlwb Golff Pontardawe

Ddydd Gwener 17 Mehefin, roedd Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn bresennol yn noson gyflwyno clwb golff Cwmtawe 7s yng Nghlwb Golff Pontardawe. Cymerodd sawl tîm ran mewn twrnament golff blynyddol a mwynhau noson o gomedi gan y cyflwynydd Lenny Dee. Rhoddwyd gwobrau i'r tîm buddugol gan Ysgrifennydd Cwmtawe 7s, Julian Bracey a'r Cynghorydd Sir dros Bontardawe, Anthony Richards. Roedd yr Elusen Iechyd yn hynod ddiolchgar i dderbyn sic o £1,805, sy'n golygu ein bod wedi gallu prynu pedair cadair, planhigion a chloc ar gyfer yr Ystafell Enfys yng Nghlinig Cyn Geni Enfys, Ysbyty Athrofaol Llandochoau. Yn drist iawn, defnyddir yr Ystafell Enfys fel ardal i alaru yn dilyn y newyddion am gamesgoriad, marw-enedigaeth neu golli babi newydd-anedig.